**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

6 Gorffennaf 2023

Gweithgynhyrchu yng Nghymru – ymchwiliad undydd

Annwyl Vaughan,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin i drafod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector gweithgynhyrchu a'r Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu ar ei newydd wedd.

Yn dilyn tair sesiwn panel archwiliadol, cytunodd yr Aelodau y byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth.

Yn gyntaf, diolch am gynnig darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am bob un o'r pwyntiau gweithredu yn y cynllun gweithredu gweithgynhyrchu ar ei newydd wedd, gan nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni pob un, ynghyd â 'pherchennog arweiniol'.

Cytunwyd hefyd y byddwn yn ysgrifennu i ofyn am atebion i gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn. Roedd gan yr Aelodau gwestiwn i'r holl dystion yn ymwneud â monitro effaith y cynllun, gan nodi bod y cynllun gweithredu ar ei newydd wedd yn datgan "wrth symud ymlaen, bydd cyfraniad y sector gweithgynhyrchu […] yn cael ei olrhain drwy ein Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Ond nid yw hyn yn ddigon." Gofynnwyd i dystion mewn sesiynau panel diweddarach pa waith pellach yr oeddent yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i ddatblygu dull mwy manwl o fonitro effaith y cynllun.

Tynnodd tystion sylw at bwysigrwydd bod y cynllun gweithgynhyrchu yn cyd-fynd â chynlluniau cysylltiedig eraill, megis y Cynllun Sgiliau Sero Net, y Strategaeth Arloesi a strategaeth economaidd drosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Nododd Make UK, o edrych arnynt gyda'i gilydd, y gellid gweld bod rhai bylchau amlwg yn y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn cael eu llenwi gan gamau gweithredu yn y cynlluniau eraill hynny. Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd nad

oedd unrhyw gyfeiriad yn y cynllun gweithgynhyrchu at strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ffyrdd, cludo nwyddau a logisteg, a seilwaith yn fwy cyffredinol, a nododd sawl tyst fod hynny'n hollbwysig i ddyfodol y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. Cydnabu David Hoare o GE Aerospace, fel y nodwyd yn y cynllun, fod dangosyddion llesiant yn hytrach na thargedau economaidd yn unig yn debygol o fod yn fesurau llwyddiant pwysig i Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n bwysicach fyth cael dealltwriaeth glir ar y cyd o sut y caiff llwyddiant ei fesur.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech ymateb i'r pwyntiau hyn drwy amlinellu sut y byddwch yn sicrhau eglurder ynghylch sut y mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn cyd-fynd â chynlluniau a strategaethau cysylltiedig eraill; a thrwy roi mwy o fanylion am sut y byddwch yn mesur, monitro a gwerthuso'r effaith ar y sector gweithgynhyrchu.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech nodi pa waith a wnaed ers 2021 mewn perthynas â'r pwynt gweithredu yn y cynllun gweithredu gweithgynhyrchu cychwynnol i "ddeall y math o gymorth busnes sydd ei angen ar weithgynhyrchu yng Nghymru" a pha newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny. Nodwyd hyn yn 2021 fel blaenoriaeth uniongyrchol.

Mae'r diweddariad ar y pwynt gweithredu hwn, a ddarparwyd ym mhwynt 58 yn eich papur ar gyfer y cyfarfod, yn cyfeirio at gymorth a ddarparwyd gan Busnes Cymru ers 2016 a lansiad Cronfa Dyfodol yr Economi yn 2018 – sydd ill dau'n dyddio cyn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer 2021.

Yn olaf, mae un o'r camau gweithredu yn y cynllun ar ei newydd wedd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn "rhoi ein cymorth busnes ar gyfer gweithgynhyrchu ar waith o amgylch nifer o gynhyrchion critigol wedi'u targedu sy'n arwyddocaol yn strategol i ffyniant hirdymor Cymru". Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe gallech roi eglurhad manwl o sut y caiff y 'cynhyrchion hanfodol' hyn eu nodi a sut y mae'r dull hwn yn debygol o effeithio ar y cymorth a ddarperir i'r sector gweithgynhyrchu.

Diolch unwaith eto am ymuno â'r Aelodau ar gyfer yr ymchwiliad undydd archwiliadol hwn. Mae'r trawsgrifiad a'r linc i Senedd TV ar gael ar ein gwefan i chi a'ch swyddogion weld beth oedd gan dystion eraill i'w ddweud.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb, ac at ddeialog barhaus am ddyfodol gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Welsh Parliament